sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# Diwygiedig 2018-2033
## Cynllun Datblygu Lleol

# Datganiad Sefyllfa
## Twf Tai a Dosbarthiad Gofodol



Ebrill 2024

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# 1. Cyflwyniad
Cyhoeddir y Papur Sefyllfa hwn ar y cyd â'r Papur Rôl a Swyddogaeth ac mae'n rhoi ystyriaeth i'r opsiwn twf aelwydydd a ffefrir ar gyfer y CDLl Diwygiedig a nodir hynny yn y Papur Pwnc Poblogaeth ac Aelwydydd. Mae'r papur hwn yn cynnwys tystiolaeth ar elfen Tai Twf a Dosbarthiad Gofodol ac mae'n ddiweddariad yn dilyn sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch y CDLl Diwygiedig Adneuo.

# 2. Y Cefndir
Fel rhan o'r dystiolaeth gefndirol i'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo, cyhoeddodd y Cyngor Bapur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol a oedd yn ystyried sefyllfa'r CDLl Diwygiedig mewn perthynas â'i Dwf Tai. Ceisiai ddarparu cyfiawnhad dros bennu gwahanol elfennau'r cyflenwad tai a'r rhesymeg dros ei ddosbarthiad gofodol ar draws y Sir.

Yn dilyn sylwadau gan Lywodraeth Cymru ar yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo, mae angen edrych ar y sylwadau sy'n ymwneud â thwf tai a darparu esboniad dros ymateb y Cyngor. Mae wedi bod yn angenrheidiol gwneud hynny i gydymffurfio â Llawlyfr y Cynllun Datblygu, Rhifyn 3, ac i roi eglurder ar ddull y Cyngor yn arwain at archwilio'r CDLl Diwygiedig.

# 3. Ymateb y Cyngor i sylwadau
## Sylwad 5542 – Llywodraeth Cymru
***Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio ag adrannau allweddol o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu o ran eglurder, cysondeb a chyflwyno elfennau allweddol o'r cyflenwad tai sy'n ofynnol, gan gynnwys y taflwybr tai. Nid yw'n glir beth yn union yw lefel y ddarpariaeth tai a gynigir yn y cynllun****. Mae angen i'r Cyngor ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol i ganfod faint o newidiadau sydd angen eu gwneud i'r polisïau yn y cynllun, y sylfaen dystiolaeth, ac, yn bwysicaf oll, y ddarpariaeth dai gyffredinol. Yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith hwn, gallai hyn gael goblygiadau gweithdrefnol o ran sut y gellir symud y cynllun ymlaen i'w archwilio a gallai effeithio'n negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg. Efallai y bydd angen Newidiadau Penodol cyn cyflwyno.*

### Ymateb y Cyngor:
Y gofyniad tai a osodir yn y CDLld yw 8,822 o anheddau, a'r ddarpariaeth tai yw 9,704 o anheddau. Cydnabyddir bod rhywfaint o ddryswch o ran sut cyflwynwyd y wybodaeth yn y tablau dosbarthiad gofodol a'r taflwybr. Cynhaliwyd trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac mae'r tablau wedi'u diwygio yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, tra'n cynnal y gofyniad a'r ddarpariaeth dai a nodir yn y Cynllun. Mae tablau wedi'u diweddaru yn Atodiad 1.

## Sylwad 5543 – Llywodraeth Cymru
Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (5.62) yn nodi'n benodol bod yn rhaid i bob elfen dai gael yr un dyddiad sylfaen. Mae hyn yn hanfodol er mwyn osgoi dryswch a diffyg cysondeb. Mae'r Cyngor wedi defnyddio dyddiad sylfaen o 01Ebrill 2022 ar gyfer y categori wedi'i gwblhau/yn cael ei adeiladu a Hydref 2022 ar gyfer amseriad a chyflwyno fesul cam safleoedd mawr. **Nid yw'r dull hwn yn cydymffurfio â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ac o ganlyniad nid oes darlun cywir o'r tai yn y cynllun, na'r dystiolaeth ategol.** Rhaid i'r Cyngor naill ai dynnu'n ôl y ffigurau tai a holl elfennau'r cyflenwad i 01Ebrill 2022 neu symud popeth ymlaen i 01Ebrill 2023.

### Ymateb y Cyngor
Mae'r Taflwybr Tai wedi'i ddiweddaru i'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023 ac fe'i cyflwynir yn Atodiad 1. Mae holl elfennau'r Cyflenwad Tai wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r un dyddiad sylfaen, sy'n unioni'r gwrthwynebiad gan Lywodraeth Cymru.

Disgwylir y bydd y Cyngor, yn y cyfnod cyn y sesiwn gwrandawiad, yn gallu diweddaru'r taflwybr tai i ddyddiad sylfaen o 31 Mawrth 2024, gyda diweddariadau canlyniadol yn cael eu gwneud i'r tablau cyflenwad tai a dosbarthiad gofodol sy'n cydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.

## Sylwad 5544 – Llywodraeth Cymru

Mae Polisi Cynllunio Cymru (4.2.10 a 4.2.11) yn nodi bod yn rhaid paratoi'r taflwybr tai yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn cynnwys canllawiau manwl ar sut y dylid gwneud hyn a'i gyflwyno yn y cynllun. Nid yw'r tabl taflwybr yn y cynllun na'r graff ategol (tudalen 340 a 341) yn cydymffurfio â gofynion Polisi Cynllunio Cymru a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu fel a ganlyn:

- Nid yw rhesi J i T yn cydymffurfio â'r 'dull/fformiwla AABR' newydd a nodwyd yng nghanllawiau Rhes L y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (tudalen 124-127 a Thabl 21). Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r 'hen system' AAR ac wedi cynnwys cyfrifiad cyflenwad tir 5 mlynedd. Diddymwyd TAN 1 a chyhoeddwyd y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3) ym mis Mawrth 2020. **Rhaid i'r Cyngor ddiwygio'r taflwybr er mwyn cydymffurfio â'r polisi a'r canllawiau diweddaraf.**

- Rhes H – Dylid tynnu hap-safleoedd mawr o'r ddwy flynedd gyntaf o gyflenwad 01 Ebrill 2022/23 a 2023/24 (DPM 5.73) – gweler y sylwadau dros y ddalen.

- Ni ddylai'r graff taflwybr fod â 'llinell AAR syth' am y rhesymau a nodwyd uchod. Dylid diwygio'r graff yn unol â'r sylwadau uchod a Diagram DPM 16.

- Rhes G – y disgwyl yw mai'r cyfanswm wedi'u cwblhau ar safleoedd mawr â chaniatâd cynllunio fydd 2,675 uned, sydd dra wahanol i'r tablau ategol yn Atodiad 7 a Dosbarthiad Gofodol y Tabl Tai (tudalen 342 o'r cynllun) sy'n nodi mai 4,342 uned yw hwn. Mae'r ffigwr o 4,342 ar gyfer y banc tir hefyd wedi'i gynnwys yn Nhablau 14 a 15 o Res Tai K o'r taflwybr tai yn adio i 9,704 o unedau sy'n gywir ac yn gyson â'r ffigwr darpariaeth tai ym Mholisi SP4. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn wedi'i seilio ar fanc tir tai o 2,675 o unedau. Mae'r papur cefndir hefyd yn nodi bod 1,510 o unedau a ddyrannwyd yn flaenorol bellach wedi cael caniatâd ers y cynllun adneuo diwethaf, gan godi cwestiynau difrifol ynghylch dilysrwydd y ffigur o 2,675. Pe bai'r 4,342 yn cael eu cynnwys byddai'r ddarpariaeth yn fwy na 11,000 o unedau. **Rhaid esbonio a chyfiawnhau'r anghysondeb sylweddol hwn. Rhaid i'r Cyngor gadarnhau beth yw'r ffigwr banc tir.** Gweler ein sylwadau ar ddarpariaeth tai a'r Gymraeg isod a throsodd.

## Ymateb y Cyngor

Roedd y taflwybr tai a gyflwynwyd yn yr Ail GDLl Adneuo yn seiliedig ar y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu blaenorol ac mae bellach wedi'i ddiweddaru i fod yn unol â'r Llawlyfr diweddaraf, Rhifyn 3. Yn dilyn trafodaeth gyda swyddogion Llywodraeth Cymru mae'r tablau wedi'u diwygio yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu diweddaraf, ac yn datrys y pryderon uchod.

## Darpariaeth ar gyfer Hap-safleoedd Mawr

## Sylwad 5545 – Llywodraeth Cymru

**(a) Cysondeb mewn terminoleg/diffiniad -** Mae (DPM 5.62) yn nodi y dylai pob elfen dai gael ei diffinio'n glir, ei chyfiawnhau a bod yn gyson, i gynorthwyo eglurder ac osgoi cyfrif dwbl. Mae'r diffiniad o hap-safle yn glir o fewn y DPM – Tabl 18. Mae'n nodi mai hap-safle yw un nad yw wedi'i ddyrannu na'i nodi fel ymrwymiad yn y cynllun. **Mae'r ffordd y caiff hap-safleoedd eu disgrifio/diffinio o fewn Twf a Dosbarthiad Gofodol Rhan 1 – Papur Pwnc**

**Tai yn hynod ddryslyd** gyda niferoedd wedi cwblhau, banc tir a therminoleg hap-safleoedd yn cael eu defnyddio mewn modd cyfnewidiol ac anghyson. Er enghraifft, beth a olygir gan hap-safleoedd disgwyliedig ac nas rhagwelwyd (paragraff 2.28 – 2.30)? **Mae angen i'r Cyngor gadarnhau nad oes dim cyfrif dwbl nac anghysondebau o ran y banc tir a'r ddarpariaeth ar gyfer hap-safleoedd mawr.**

**(b) Anghysondeb o ran y ddarpariaeth ar gyfer hap-safleoedd mawr** - Daw'r Cyngor i'r casgliad (Papur Pwnc Tai, paragraff 2.32) "*nad oes dim tystiolaeth ddigonol a chymhellol o fewn data'r hapsafleoedd dros symud i ffwrdd o ddefnyddio'r gyfradd cwblhau hapsafleoedd mawr cyfartalog dros gyfnod o 15 mlynedd. Mae hwn yn cyfateb i 87 o anheddau y flwyddyn".* Nid oes dadl ynghylch y dadansoddiad yn Nhabl 2.21, ac nid yw LIC yn gwrthwynebu defnyddio'r gyfradd gwblhau flaenorol o 15 mlynedd ar gyfer hap-safleoedd mawr sy'n cyd-fynd â chanllawiau'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Fodd bynnag, yr union ddarpariaeth ar gyfer hap-safleoedd mawr a gymhwysir gan y Cyngor yn y taflwybr tai (Atodiad 7 – Rhes H) ac wrth gefnogi'r Papur Tai (Tabl 14, Tabl 15) yw 112 uned y flwyddyn. **Nid yw'n glir o ble mae'r ffigur hwn wedi dod, nad yw'n cyd-fynd â chasgliadau'r Cyngor ei hun. Os caiff cyfradd y ddarpariaeth ar gyfer hap-safleoedd ei haddasu yn ôl i lawr i 87 y flwyddyn, byddai hyn yn arwain at ostyngiad posibl o 225 o gartrefi o gyfanswm y ddarpariaeth o ran tai.**

**(c) Didyniad hap-safleoedd o ddwy flynedd gyntaf y cyflenwad** – Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Tabl 18 a pharagraff 5.73) yn nodi "na ddylid cynnwys hap-safleoedd mawr yn nwy flynedd gyntaf y cyflenwad er mwyn osgoi problemau cyfrif dwbl". Mae'r diffiniadau hyn yn berthnasol ar bwynt penodol mewn amser, h.y. dyddiad sylfaen y sail dystiolaeth, a pholisïau cysylltiedig, tablau a'r taflwybr yn y cynllun. Yn yr achos hwn, y dyddiad sylfaen yw 01 Ebrill 2022 (gyda chafeat ar ffurf ein sylwadau uchod). Mae hyn yn golygu mai dim ond o 2024 ymlaen y dylid cymhwyso'r hap-safleoedd mawr, disgwyliedig. I gyd-fynd â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, dylid tynnu 112 uned o'r taflwybr yn 2022 a 2023 a **fyddai'n arwain at ostyngiad pellach o 225 o gartrefi o'r ddarpariaeth dai.**

## Ymateb y Cyngor

(a) Dylid cyfeirio at y Papur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol wedi'i ddiweddaru sy'n ceisio diffinio'n glir wahanol elfennau'r cyflenwad tai.

Gan gyfeirio at hap-safleoedd disgwyliedig ac nas rhagwelwyd, mae'r Papur Pwnc yn ceisio darparu esboniad am y derminoleg hon ac yn nodi'r safleoedd hynny y maent yn debygol o gael eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun (disgwyliedig) a'r safleoedd hynny lle nad oes unrhyw ddatblygiadau, neu lle mae'n annhebygol y bydd unrhyw ddatblygiadau (nas rhagwelwyd). Defnyddiwyd ei bwrpas a'i ddiffiniad i ddangos y gallai'r ffigwr hap-safleoedd gael ei ddiwallu gan yr hap-safleoedd.

(b) Y ddarpariaeth ar gyfer hap-safleoedd a fabwysiadwyd yn y Cynllun yw 87 o anheddau'r flwyddyn. Mae hyn wedi'i adlewyrchu, a'i gywiro yn y tablau diwygiedig a nodwyd yn Atodiad 1.

(c) Mae'r ddarpariaeth hap-safleoedd bellach wedi'i didynnu yn nwy flynedd gyntaf y cyflenwad yn y tablau diwygiedig.

## Cyfanswm y Ddarpariaeth o ran Tai - Anghysondebau

### Sylwad 5546 – Llywodraeth Cymru

Mae Polisi SP4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer 9,704 o dai er mwyn cyflawni'r gofyniad o 8,822 o dai. Mae hyn yn cynrychioli lwfans hyblyg o 10%. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (5.60) yn nodi y dylai'r cynllun fod yn glir sut y dosberthir yn ofodol gyfanswm y ddarpariaeth

tai (9,704). Yn ogystal â'r sylwadau a godwyd yn flaenorol, mae sawl anghysondeb yn y cynllun a'i dystiolaeth ategol a allai fod â goblygiadau o ran y ddarpariaeth tai:

- Gweler y sylwadau ynghylch Rhes G o Daflwybr Tai y Cyngor. Mae gwahaniaeth sylweddol o 1,677 o gartrefi rhwng y ffigwr banc tir sydd wedi'i gynnwys yn nhabl cryno'r taflwybr (Rhes G) a'r hyn a geir yn y tablau ategol a'r Papur Pwnc Tai. Mae Tablau 14 a 15 y Papur Pwnc Tai yn nodi bod gan 4,342 o unedau safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio. Mae hyn yn cyd-fynd â'r tablau cefnogi manwl ar gyfer taflwybr y Cyngor yn Atodiad 7. Mae Tabl Dosbarthiad Gofodol y Cynllun hefyd yn nodi mai 4,342 yw'r ffigwr hwn. **Mae hwn yn wahaniaeth sylweddol nad yw wedi cael ei esbonio na'i gyfiawnhau. O ble mae ffigur banc tir y taflwybr o 2,675 wedi dod? A yw'r banc tir yn 4,342 uned neu 2,675 uned?**

- Mae'r Papur Pwnc Tai (Atodiad) 2 yn esbonio rhesymeg y Cyngor dros y dyraniad o 246 o gartrefi yn Haen 4. Nid yw fel petai'r ffigur hwn wedi'i gynnwys yng nghyfanswm y ddarpariaeth tai. Yn ogystal, dylai'r Cyngor esbonio sut bydd y cap o 10% ar y Polisi HOM 3 (yn fwy na'r cartrefi presennol yn yr aneddiadau hyn) yn cael ei weithredu'n ymarferol? A fydd yn cael ei seilio ar dai y cafwyd caniatâd ar eu cyfer neu dai wedi'u cwblhau? Nid yw trothwyon/capiau wedi gweithio'n dda mewn rhannau eraill o Gymru.

- Mae anghywirdebau mathemategol yn Nhabl Dosbarthiad Gofodol y Cyngor (Atodiad 7)/

### Ymateb y Cyngor

Cynhaliwyd trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac mae'r tablau wedi'u diwygio yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, sy'n goresgyn yr anghysondebau hyn. Mae esboniad o'r derminoleg a ddefnyddir wedi'i gynnwys yn y Papur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol wedi'i ddiweddaru.

O dan Bolisi HOM3, mae dyraniad i aneddiadau Haen 4 ddarparu 246 o gartrefi. Bellach mae'r ffigur hwn wedi'i gynnwys yn y Tabl Dosbarthiad Gofodol wedi'i ddiweddaru. Bydd y modd y gweithredir y polisi hwn yn cael ei nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

## 4. Taflwybr Tai

Yn dilyn yr Ail Gynllun Adneuo cychwynnol a wnaed gan Lywodraeth Cymru, cynhaliwyd cyfarfodydd i ddatrys problemau o ran cyflwyniad a chywirdeb y taflwybr tai a'r tablau dosbarthiad gofodol.

Mae dau o dablau taflwybr tai wedi'u cyflwyno yn Atodiad 1 a 2. Mae'r tabl sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yn nodi'r sefyllfa gyda'r ddarpariaeth tai wedi'i gosod ar 9,704, yn seiliedig ar ofyniad tai o 8,822 gyda hyblygrwydd o 10%. Fel y gwelir yn y tabl hwn, mae hyn yn dangos diffyg o 464 o ran y tai sydd i'w cwblhau, ac mae'n ofynnol yn ôl y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu i hyn gyfateb i 0.

Rydym bellach bum mlynedd i mewn i'r taflwybr oherwydd oedi ym mhroses baratoi'r Cynllun. Mae'r gofyniad a'r ddarpariaeth tai wedi aros yr un fath yn y Cynlluniau Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo. Gellir dweud bod dau reswm dros y diffyg - cyfanswm wedi'u cwblhau a hap-safleoedd wedi'u cwblhau

- Roedd y niferoedd a gwblhawyd yn sylweddol is na'r disgwyl yn 2022-23, gellir ond dyfalu'r rhesymau dros hyn, gallai fod oherwydd yr argyfwng costau byw neu oherwydd bod dyddiad gorffen y CDLl mabwysiedig presennol o 2021 wedi bod.

- Nid yw dyraniad yr hap-safleoedd disgwyliedig am y 5 mlynedd cyntaf (ynghyd â 2 y mae'n rhaid eu didynnu fel y nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu) wedi'i fodloni. Ar sail tueddiadau'r gorffennol, mae cyfartaledd o 87 o hap-anheddau wedi'i bennu. Fel y gwelir yn y tabl taflwybr - yn ystod y pum mlynedd cyntaf ers dyddiad sylfaen y Cynllun, dim ond 72 o hap-anheddau sydd wedi'u hadeiladu, yn hytrach na'r 435 disgwyliedig. Ystyrir mai'r prif reswm dros hyn yw am fod rhai safleoedd, a fyddai wedi bod yn rhai ar hap yng nghyfnod 20-22, wedi cael eu hailddosbarthu wrth baratoi'r Ail Gynllun Adneuo.

Rhoddwyd ystyriaeth i sut i fynd i'r afael â'r diffyg, ac o ganlyniad, cyflwynir ail dabl taflwybr yn Atodiad 2. Mae'r taflwybr amgen hwn yn darparu hyblygrwydd o 4%, yn hytrach na 10%, gyda'r ddarpariaeth tai yn lleihau i 9176. Cyflwynir hyn i ddangos sut y gallai'r gofyniad o ran cwblhau'r niferoedd sy'n weddill yn rhes N o'r tabl taflwybr gyfateb i 0.

Fel arall, er mwyn cadw'r hyblygrwydd ar 10%, mae angen 528 o anheddau ychwanegol [darpariaeth tai CDLl (9704) – darpariaeth tai gwirioneddol (9176) = 528]. Cyfrifir y tangyflenwad hwn fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Darpariaeth tai CDLl | | 9704 |
| Windfall under-supply* | - | 537 |
| Small sites over-supply** | + | 9 |
| Actual housing provision | | 9176 |

* Hap-safleoedd mawr– Darpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer 1305. Hyd yn hyn mae 72 annedd wedi'u cwblhau ar hap-safleoedd mawr, a gosodir y gorffeniadau disgwyliedig yn 96 (87x8), cyfanswm 768 – felly, mae tangyflenwad o 537 annedd o'r ddarpariaeth ar gyfer hap-safleoedd.

** Safleoedd bach – Darpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer 1575. Hyd yn hyn mae 534 annedd wedi'u cwblhau ar safleoedd bach, a gosodir y gorffeniadau disgwyliedig yn 1050 (105x10), cyfanswm 1584 – felly, mae yna or-gyflenwad o 9 dwellings ar safleoedd bach.

Cyflwynir y table amgen hwn i'w drafod yn yr archwiliad ynghylch a yw hyblygrwydd o 4% yn fwy addas, neu a fyddai'n fwy priodol darparu 528 o anheddau ychwanegol i gynnal y lwfans hyblygrwydd ar 10%.

# Atodiad 1 – Taflwybr Tai

| | **Blwyddyn CDLI** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | **12** | **13** | **14** | **15** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A** | **Blwyddyn** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** | **2029-30** | **2030-31** | **2031-32** | **2032-33** |
| B | Blynyddoedd sy'n weddill | **15** | **14** | **13** | **12** | **11** | **10** | **9** | **8** | **7** | **6** | **5** | **4** | **3** | **2** | **1** |
| C | Cyfanswm y Ddarpariaeth o ran Tai | 9,704 | 9,704 | 9,704 | 9,704 | 9,704 | 9,704 | 9,704 | 9,704 | 9,704 | 9,704 | 9,704 | 9,704 | 9,704 | 9,704 | 9,704 |
| D | Cyfanswm Gofyniad Tai CDLl | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 |
| E | Union niferoedd wedi'u cwblhau a gofnodwyd ar safleoedd mawr yn ystod y flwyddyn | 277 | 607 | 399 | 365 | 144 | | | | | | | | | | |
| | Tai wedi'u cwblhau ar safleoedd mawr a ddyrannwyd | 247 | 580 | 394 | 357 | 142 | | | | | | | | | | |
| | Tai wedi'u cwblhau ar hap-safleoedd mawr | 30 | 27 | 5 | 8 | 2 | | | | | | | | | | |
| F | Union niferoedd wedi'u cwblhau a gofnodwyd ar safleoedd bach yn ystod y flwyddyn | 117 | 103 | 104 | 125 | 85 | | | | | | | | | | |
| G | Niferoedd wedi'u cwblhau disgwyliedig ar safleoedd dyranedig yn ystod y flwyddyn | | | | | | 4 | 71 | 255 | 508 | 491 | 427 | 263 | 235 | 177 | 95 |
| H | Niferoedd wedi'u cwblhau tir banc disgwyliedig yn ystod y flwyddyn | | | | | | 294 | 272 | 373 | 393 | 309 | 263 | 249 | 246 | 110 | 69 |
| I | Niferoedd wedi'u cwblhau disgwyliedig ar hap-safleoedd yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | 87 | 87 | 87 | 87 | 87 | 87 | 87 | 87 |
| J | Niferoedd wedi'u cwblhau disgwyliedig ar hap-safleoedd bach yn ystod y flwyddyn | | | | | | 105 | 105 | 105 | 105 | 105 | 105 | 105 | 105 | 105 | 105 |
| K | Cyfanswm y niferoedd wedi'u cwblhau (E + F + G + H + I + J) | 394 | 710 | 503 | 490 | 229 | 403 | 448 | 820 | 1093 | 992 | 882 | 704 | 673 | 479 | 356 |
| I | Cyfradd Adeiladu Blynyddol Disgwyliedig - Cyfanswm y niferoedd wedi'u cwblhau disgwyliedig (G + H + I + J) wedi'i addasu gyda ffactor addasu X% i dai wedi'u cwblhau yn y dyfodol. Nid yw'r ffactor addasu yn cael ei gymhwyso i unrhyw union niferoedd wedi'u cwblhau yn rhesi E a F | | | | | | 354.824 | 394.444 | 721.973 | 962.338 | 873.412 | 776.562 | 619.841 | 592.546 | 421.738 | 313.442 |
| M | Cyfanswm y tai wedi'u cwblhau cronnus a ragwelir | | | | | 2326 | 2680.82 | 3075.27 | 3797.24 | 4759.58 | 5632.99 | 6409.55 | 7029.39 | 7621.94 | 8043.68 | 8357.12 |
| N | Niferoedd tai wedi'u cwblhau sy'n weddill (gofyniad tai namyn niferoedd wedi'u cwblhau a ragwelir fesul blwyddyn) | | | | | 6496 | 6141.18 | 5746.73 | 5024.76 | 4062.42 | 3189.01 | 2412.45 | 1792.61 | 1200.06 | 778.323 | 464.88 |

## Tabl Dosbarthiad Gofodol

<table>
<tr><th></th><th>Elfennau'r Cyflenwad Tai</th><th>Haen 1</th><th>Haen 2</th><th>Haen 3</th><th>Haen 4</th><th>Dim Haen</th><th>CYFANSWM</th></tr>
<tr><td>i</td><td>Nifer a Gwblhawyd ar Safleoedd Mawr - HOM1</td><td>1024</td><td>560</td><td>136</td><td>0</td><td>0</td><td>1720</td></tr>
<tr><td>ii</td><td>Nifer a gwblhawyd ar safleoedd mawr - hapsafleoedd</td><td>39</td><td>20</td><td>11</td><td>2</td><td>0</td><td>72</td></tr>
<tr><td>iii</td><td>Nifer a gwblhawyd ar safleoedd bach</td><td>198</td><td>145</td><td>131</td><td>52</td><td>8</td><td>534</td></tr>
<tr><td>A</td><td>Cyfanswm a Gwblhawyd (i + ii + iii)</td><td>1261</td><td>725</td><td>278</td><td>54</td><td>8</td><td>2326</td></tr>
<tr><td>Iv</td><td>HOM1 U/C</td><td>95</td><td>44</td><td>17</td><td>0</td><td>0</td><td>156</td></tr>
<tr><td>v</td><td>Hap-safleoedd Heb eu Cwblhau</td><td>0</td><td>1</td><td>2</td><td>2</td><td>0</td><td>5</td></tr>
<tr><td>B</td><td>Unedau'n cael eu hadeiladu (iv+v)</td><td>95</td><td>45</td><td>19</td><td>2</td><td>0</td><td>161</td></tr>
<tr><td>C</td><td>Unedau gyda chaniatâd cynllunio</td><td>1321</td><td>1051</td><td>206</td><td>0</td><td>0</td><td>2578</td></tr>
<tr><td>D</td><td>Dyraniadau tai newydd</td><td>1573</td><td>577</td><td>376</td><td>0</td><td>0</td><td>2526</td></tr>
<tr><td>E</td><td>Hap-safleoedd mawr (+5)</td><td>289.9</td><td>227.0</td><td>179.2</td><td>0</td><td>0</td><td>696</td></tr>
<tr><td>F</td><td>Hap-safleoedd bach (-5)</td><td colspan="3">822</td><td>212</td><td>16</td><td>1050</td></tr>
<tr><td rowspan="2">G</td><td rowspan="2">Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai (A + C + D + E + F)</td><td>4444.9</td><td>2580.0</td><td>1039.2</td><td rowspan="2">266</td><td rowspan="2">24</td><td rowspan="2">9176</td></tr>
<tr><td colspan="3">822</td></tr>
</table>

# Atodiad 2 – Taflwybr Tai Amgen

| | **Blwyddyn CDLI** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | | **8** | **9** | **10** | **11** | **12** | **13** | **14** | **15** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A** | **Blwyddyn** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** | **2029-30** | **2030-31** | **2031-32** | **2032-33** |
| B | Blynyddoedd sy'n weddill | **15** | **14** | **13** | **12** | **11** | **10** | **9** | **8** | **7** | **6** | **5** | **4** | **3** | **2** | **1** |
| C | Cyfanswm y Ddarpariaeth o ran Tai | 9,176 | 9,176 | 9,176 | 9,176 | 9,176 | 9,176 | 9,176 | 9,176 | 9,176 | 9,176 | 9,176 | 9,176 | 9,176 | 9,176 | 9,176 |
| D | Cyfanswm Gofyniad Tai CDLl | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 | 8,822 |
| E | Actual recorded completions on large sites during year | 277 | 607 | 399 | 365 | 144 | | | | | | | | | | |
| | Comps on allocated large sites | 247 | 580 | 394 | 357 | 142 | | | | | | | | | | |
| | comps on large windfall | 30 | 27 | 5 | 8 | 2 | | | | | | | | | | |
| F | Actual recorded completions on small sites during year | 117 | 103 | 104 | 125 | 85 | | | | | | | | | | |
| G | Anticipated completions on allocated sites during year | | | | | | 4 | 71 | 255 | 508 | 491 | 427 | 263 | 235 | 177 | 95 |
| H | Anticipated land bank completions during year | | | | | | 294 | 272 | 373 | 393 | 309 | 263 | 249 | 246 | 110 | 69 |
| I | Anticipated completions large windfall during year | | | | | | | | 87 | 87 | 87 | 87 | 87 | 87 | 87 | 87 |
| J | Anticipated completions small windfall sites during year | | | | | | 105 | 105 | 105 | 105 | 105 | 105 | 105 | 105 | 105 | 105 |
| K | Total completions (E+F+G+H+I+J) | 394 | 710 | 503 | 490 | 229 | 403 | 448 | 820 | 1093 | 992 | 882 | 704 | 673 | 479 | 356 |
| L | Anticipated Annual Build Rate - Total anticipated annual completions (G+H+I+J) adjusted with X% adjustment factor to future completions. The adjustment factor is not applied to any actual completions recorded in row E & F | | | | | | 382.173 | 424.848 | 777.623 | 1036.52 | 940.735 | 836.419 | 667.618 | 638.22 | 454.246 | 337.602 |
| M | Total projected cumulative completions | | | | | 2326 | 2708.17 | 3133.02 | 3910.64 | 4947.16 | 5887.89 | 6724.31 | 7391.93 | 8030.15 | 8484.4 | 8822 |
| N | Remaining housing completions (housing requirement minus projected completions by year) | | | | | 6496 | 6113.83 | 5688.98 | 4911.36 | 3874.84 | 2934.11 | 2097.69 | 1430.07 | 791.848 | 337.602 | 0 |